

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWDYD AR 14 MAWRTH 2019

CANOLFAN DDYSGU WESTON, SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Allwedd i flaenlythrennau:

DG - Cyfarwyddwr Cyffredinol

DD - Cyfarwyddwr Datblygu

DGDVE - Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad yr Ymwelydd

Ts - Ymddiriedolwyr

Rhif agenda	Nodiadau	Camau gweithredu
	<p>YN BRESENNOL: Carol Bell (yn y Gadair), Laurie Pavelin (Trysorydd); Carys Howell, Catherine Duigan, Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Hywel John; Jessica Seaton; Michael Prior; Rachel Hughes; Robert Pickard; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>YN BRESENNOL: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu; Phil Evans, Rheolwr Cynllunio Strategol; Gwendolyn Williams, Cadeirydd Cyfeillion Amgueddfa Cymru.</p>	
	<p>DATGANIAD O FUDD</p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fudd.</p>	
	<p>Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol: Recriwtio Llywydd ac Ymddiriedolwyr; Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Amgueddfa Chwaraeon i Gymru ac Oriel Genedlaethol Gelf Gyfoes; Sganio'r Gorwel; Tŷ Turner; Cymeradwyo benthyciadau rhyngwladol.</p> <p>Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawyd Ymddiriedolwyr, mynychwyr a gwylwyr i'r cyfarfod.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kay Andrews; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu; Peter Owen a Lesley-Anne Kerr.</p>	
2	<p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyr Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018 ar yr amod bod enwau Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu a Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu yn cael eu hychwanegu at y rhestr o bobl oedd yn bresennol.</p>	
3	<p>MATERION YN CODI</p>	

	<p>5.1.7 Casgliadau ac Ymchwil – Trafodaeth o gwmpas y bwrdd gyda phrifysgolion ar gyfer cyflwyniad cyhoeddus o'r Strategaeth Ymchwil – roedd Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am gynigion ac amserlenni (Gorffennaf / Medi). Byddai'r ddogfen grynodeb strategaeth ac eiriolaeth gyhoeddus yn cynnwys gwaith â phartneriaid yr Amgueddfa. Nododd Ymddiriedolwyr ddiddordeb y Prif Weinidog yn y gwaith hwn. <u>Penderfynwyd:</u> Bod y Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol yn cael gwybod am yr amserlen arfaethedig a phartneriaid y sector ar gyfer y digwyddiad er mwyn iddynt gynnig partneriaid eraill.</p> <p>4.5.5.7 Polisi Codi Arian Moesegol – <u>Penderfynwyd:</u> Ymddiriedolwyr i gael gwybod pan fydd y Polisi Codi Arian Moesegol wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Amgueddfa.</p> <p>6.1.5 Egwyddorion sy'n ategu sut caiff penderfyniadau ynghylch rhaglennu eu gwneud – <u>Penderfynwyd:</u> Caiff yr egwyddorion sy'n ategu sut caiff penderfyniadau ynghylch rhaglennu eu gwneud eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.</p> <p>8.1.1.4 Y Rhaglen Cynnal a Chadw Hanfodol – Roedd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad wedi monitro'r gwaith hwn yn agos. Mewn papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn 2016 ynghylch yr ôl-groniad o waith, nodwyd blaenoriaethau a chostau'r Amgueddfa yn ystod y cyfnod hwnnw. Nododd Ymddiriedolwyr yr angen i ganolbwyntio ar unrhyw flaenoriaethau lechyd a Diogelwch fel rhan o ddadansoddiad cyllido ac arfaethiad strategol deng mlynedd. <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, a bod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn cael diweddariad ar arfaethiadau SEMWP a wnaed yn yr adroddiad 2016, gan nodi unrhyw faterion lechyd a Diogelwch sydd heb eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>9.1.6 Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol – <u>Penderfynwyd:</u> Adran moeseg y Strategaeth Ymchwil i gael ei hanfon at y Cyfarwyddwr Datblygu i'r Bwrdd Datblygu ei hystyried.</p>	<p>DG</p> <p>DD</p> <p>DGDVE</p> <p>DGDVE</p> <p>DG</p>
4	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. ADOLYGIAD THURLEY</p> <p>1.1. Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd yr Amgueddfa wedi derbyn unrhyw ohebiaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch nawdd ar gyfer yr argymhellion amrywiol. Caiff hyn ei godi yn y cyfarfod Adolygiad Chwarterol nesaf ar 21 Mawrth 2019. Nododd Ymddiriedolwyr fod yr Amgueddfa o fewn portffolio Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Byddai goblygiadau oherwydd hyn o ran faint o nawdd cyfalaf a nawdd arall a all fod ar gael i'r Amgueddfa. Bydd yr Amgueddfa yn parhau i symud pethau ymlaen cymaint â phosib er mwyn iddi fod yn y sefyllfa orau i fynd ag unrhyw argymhellion ymlaen o ganlyniadau'r Astudiaethau Dichonoldeb, pan fydd Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad.</p> <p>1.2. Nododd Ymddiriedolwyr gynnydd wrth symud tuag at lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Bangor.</p> <p>1.3. Nododd Ymddiriedolwyr fod tri chyfarfod wedi'u cynnal rhwng yr Undebau a'r Amgueddfa, gyda Glenda Jones yn cynrychioli'r Ymddiriedolwyr. Roedd y pedwerydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mawrth 2019.</p>	

1.4. Nododd Ymddiriedolwyr yr angen i ddatblygu prentisiaethau fel rhan o'r Strategaeth Sgiliau a grëwyd ar y cyd gan Amgueddfa Cymru, Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Brenhinol a'r undebau llafur. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei safiad fel aelod o'r Bwrdd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, a'i uchelgais oedd dod â chynhadledd y Bwrdd i Gymru. Roedd ganddynt rôl bwysig wrth helpu i ddatblygu cyfleoedd am brentisiaethau yn y sector.

1.5. Rhannodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol ddiweddariad gyda'r Ymddiriedolwyr ar gynnydd o ran cynlluniau yn Amgueddfa Lechi Cymru, gan gynnwys trafodaethau i greu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Sir Gwynedd i ffurfioli'r berthynas gref sy'n bodoli. Nododd Ymddiriedolwyr fod angen i'r Amgueddfa sicrhau cytundeb gyda'r Cyngor yn y lle cyntaf, gan mai nhw yw'r tiffeddianwyr, cyn datblygu cytundebau partneriaeth eraill gyda phartneriaid eraill.

1.6. Nododd Ymddiriedolwyr gynnydd ynghylch Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ac y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Phrif Weithredwr newydd Cadw.

1.7. Adroddodd Richard Nicholls ei fod wedi cyfarfod â Richard Nash, aelod o Fwrdd Mentrau AOCC Cyf., i drafod y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.

1.8. Mae'r hysbyseb ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Masnachol bellach wedi'i gyhoeddi. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, ac Ymddiriedolwyr i hyrwyddo'r swydd wag Cyfarwyddwr Masnachol.

2. PARTNERIAETH STRATEGOL CYMRU HANESYDDOL

2.1. Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y bartneriaeth yn parhau i weithio'n dda gyda'i gilydd, a bod y Grŵp Masnachol a'r Grŵp Profiad Ymwelwyr yn datblygu.

3. AMGUEDDFA CHWARAEON / PÊL DROED AC ORIEL GENEDLAETHOL GELF GYFOES

3.1. Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed Adroddwyd: Wrth anfon ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn, roedd Lesley-Anne Kerr wedi dweud ei bod hi'n disgwyl diweddariad gan y Gweinidog ar ddiwedd y mis. Caiff hyn ei drafod yn y Cyfarfod Adolygiad Chwarterol.

3.2. Oriel Genedlaethol Gelf Gyfoes - Eto, mae disgwyl i'r Gweinidog wneud cyhoeddiad am hon ar ddiwedd y mis. Mae'r Amgueddfa yn gobeithio cyfrannu'n sylweddol at y datblygiad hwn.

3.3. Adroddiad Sgiliau - Roedd yr Amgueddfa wedi gwneud cais am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar yr adroddiad a gyflwynwyd, ac roedd yn gobeithio y byddai nawdd ar gael i gefnogi cynlluniau uchelgeisiol y partneriaid i gyd.

4. CYNLLUN GWEITHREDOL 2019/20

4.1. Derbyniwyd: Adroddiad gan yr Uwch Dîm Arwain a Phennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.

4.2. Adroddwyd: Adroddwyd y Cyfarwyddwr Cyffredinol mai Cynllun ar gyfer y drydedd flwyddyn o gynllun mwy hir-dymor oedd y Cynllun hwn. Roedd y Cynllun eisoes wedi'i rannu gyda Llywodraeth Cymru, a gofynnwyd i'r Bwrdd drafod a chymeradwyo'r fersiwn a gyflwynwyd,

Ts

	<p>cyn i gopi terfynol gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd y Llythyr Cylch Gwaith eisoes wedi'i dderbyn, ac roedd hwn wedi llywio cynnwys y Cynllun.</p> <p>4.3. Roedd proses gynllunio newydd yn cael ei dylunio, a fyddai'n cynnwys cyflwyno rhaglen feddalwedd i reoli'r broses reoli perfformiad. Yn yr un modd, roedd amgueddfeydd cenedlaethol eraill yn ystyried ffyrdd o greu systemau rheoli perfformiad mwy effeithiol.</p> <p>4.4. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai eisiau gweld yr adrannau a oedd yn ymwneud â gwaith rhyngwladol yr Amgueddfa yn cael eu cryfhau. Roedd yr Amgueddfa yn croesawu'r ychwanegiad hwn, gan ei fod yn faes o gryfder.</p> <p>4.5. Nododd Ymddiriedolwyr natur feintiol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac y byddai'r Amgueddfa, ac eraill, yn edrych ar ddatblygu dangosyddion a oedd yn ymateb mewn modd cadarnhaol ac yn gyfunol i'r amcanion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd Aelodau fod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn ystyried meysydd eraill yn fanwl megis metrig profiad ymwelwyr. Roedd yr astudiaethau achos yn darparu gwybodaeth ansoddol a naratif a oedd yn cefnogi ac yn ymhelaethu ar y wybodaeth ystadegol a ddarparwyd.</p> <p>4.6. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Gweithredu 2019/20, yn amodol ar unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, derbyn y Llythyr Cylch Gorchwyl terfynol, a sylwadau a wnaed gan y Bwrdd yn y cyfarfod hwn.</p>	
5	<p>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1. ADRODDIAD AR BERFFORMIAD CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER 3</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod yr Uwch Dîm Arwain wedi cael tri mis eithriadol o ran rheoli gweithgaredd o ganlyniad i gyfyngiadau capasiti.</p> <p>1.3. Roedd yr Uwch Dîm Arwain yn adolygu effaith y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn gadael, a byddai'n edrych ar gynyddu capasiti ymysg y Tîm.</p> <p>1.4. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at dwristiaeth ddiwylliannol. Nododd Ymddiriedolwyr fod twristiaeth ddiwylliannol sy'n dod i Gymru ac i'r Amgueddfa yn cefnogi'r gwaith mae'r Amgueddfa yn ei wneud gyda'i phartneriaid rhyngwladol a thrwy ei rhaglen benthyciadau.</p> <p>1.5. Nododd Ymddiriedolwyr gynnydd gyda'r Cynllun Aelodaeth, a bod yr Adran Datblygu yn gweithio gydag asiantaeth allanol ar hyn o bryd i brofi'r cynigion gydag ymwelwyr cyn lansio'r cynllun i'r cyhoedd.</p> <p>1.6. Nododd Ymddiriedolwyr y ffigyrau ymwelwyr cadarnhaol iawn ar gyfer mis Chwefror, gyda phob Amgueddfa wedi mynd yn uwch na'i tharged ar gyfer y mis. Roedd hyn o ganlyniad i'r tywydd eithriadol o gynnes, ac arddangosfeydd Tim Peake a Leonardo da Vinci yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r patrwm cyffredinol mewn ffigyrau ymwelwyr yn gadarnhaol iawn.</p>	

	<p>1.7. Roedd Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod y Dirprwy Weinidog yn ysgrifennu'r rhagair ar gyfer catalog arddangosfa David Nash, a bod yr Amgueddfa yn trefnu digwyddiad i nodi llofnodi Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghylch Oriel y Parc.</p> <p>1.8. Diweddarwyd Ymddiriedolwyr ar lefelau amrywiol o ymrwymiad mewn digwyddiadau cenedlaethol megis yr Urdd, a'r Eisteddfod Genedlaethol, ac y byddai adolygiad o ymrwymadau o'r fath yn cynnwys adolygiad o fuddion o fod yn bresennol mewn digwyddiadau megis Sioe Frenhinol Cymru a'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol. Nododd Ymddiriedolwyr werth i'r Amgueddfa ac i Gymru o gael presenoldeb gwyddonwyr yr Amgueddfa yn y digwyddiadau hyn i gefnogi cymunedau ffermio a'r asiantaethau hynny sy'n gweithio i ddiogelu'r amgylchedd yn wyneb newid hinsawdd.</p> <p>1.9. Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol fod yr Amgueddfa yn cwrdd â'i tharged i gyrraedd y cronfeydd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, diolch i reolaeth a stiwardiaeth ariannol gref. Roedd yr Amgueddfa wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai £730,000 yn cael ei gynnwys o fewn y Cymorth Grant ar gyfer 2019/20. Byddai'r Amgueddfa yn parhau i ofyn i'r swm hwn gael ei ychwanegu'n barhaol at y Cymorth Grant blyneddol.</p> <p>1.10. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymhellach y byddant yn cefnogi'r Amgueddfa gyda £6.4 miliwn ar gyfer y Rhaglen Cynnal a Chadw Hanfodol.</p> <p>1.11. Roedd yr Amgueddfa o flaen ei tharged ar gyfer codi incwm ar gyfer y flwyddyn, gydag elw arfaethedig o £750,000 gan Mentrau AOCC Cyf. Byddai hysbysebu'r gweithgaredd rhaffau uchel yn Sain Ffagan ymhellach yn ceisio sicrhau referniw uwch. Roedd tendrau ar gyfer adfywio'r profiadau realiti rhithwir newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn mynd yn eu blaen. Roedd gwaith i ddatblygu'r Siop Sglodion yn Sain Ffagan wedi'i oedi oherwydd problemau saernïol gyda'r adeilad. Y gobaith oedd y byddai'r siop ar agor yn hwyrach yn yr haf.</p> <p>1.12. Adroddodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad wedi trafod lefel Cronfeydd yr Amgueddfa, gydag amcanestyniadau gyda'r £730,000 gan Lywodraeth Cymru a hebdo, nad yw'n ailadrodd ar hyn o bryd ac yn dod i ben yn 2019-20. Roedd angen i'r Amgueddfa gynhyrchu cyllideb gytbwys, a derbyn cadarnhad y byddai unrhyw gynnydd mewn tâl yn cael ei ariannu. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio hefyd fod y senarios amrywiol wedi'u hadrodd i Lywodraeth Cymru dros y blyneddoddedd, yn y Cyfarfodydd Adolygiad Chwarterol gyda swyddogion, ac yn y cyfarfodydd Chwe Misol gyda'r Gweinidog lle'r oedd y Llywydd / Llywydd Gweithredol wedi bod yn bresennol. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fel Ymddiriedolwyr elusen, fod angen i gorff rheoli'r Amgueddfa gael amser i gynllunio.</p> <p>1.13. <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, ac y caiff y Cynllun Aelodaeth terfynol ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd i'w drafod a'i gymeradwyo.</p>	DD
--	--	----

	Gadawodd Heledd Fychan y cyfarfod ar yr adeg hon.	
6	<p>PROJECTAU MAWR</p> <p>1. Y RHAGLEN CYNNAL A CHADW HANFODOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad yr Ymwelydd.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y tîm nawr yn adolygu effaith sicrhau'r £6.4 miliwn o nawdd gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>1.3. Nododd Ymddiriedolwyr y gwahaniaeth rhwng y rhaglen waith hon a'r rhaglen uwchgynllunio ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Byddai'r uwchgynllunio yn galluogi'r Amgueddfa i greu amlinelliad o gysyniad a fyddai'n llywio cynlluniau ar gyfer y tymor byr yn ogystal â llywio blaenoriaethau ehangach.</p>	
7	<p>RHEOLI</p> <p>1. COFNODION DRAFFT O WAHANOL GYFARFODYDD</p> <p>1.1. Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn - Roedd yr Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod 92% o'r cynllun wedi'i ariannu. Nododd Ymddiriedolwyr safle Michael Prior ynghylch y newidiadau yn y polisi a wnaed gan y Rheolydd. Yr unig newid oedd cynnydd bychan mewn risg, ond roedd hwn yn hawdd ei drin. Nododd Ymddiriedolwyr natur buddsoddiadau stoc yr Amgueddfa. Mae angen lefel uwch o ddiogelwch wrth i'r cynllun fynd yn nes at gael ei ariannu 100%.</p> <p>1.2. Pwyllgor Adolygu Perfformiad - Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor y cofnodion. Roedd dau gyfarfod wedi'u cynnal yn ddiweddar lle nad oedd y Pwyllgor wedi bod â chworwm, a nodwyd bod y panel cyfnewid ar gyfer Ymddiriedolwyr newydd wedi bod yn effro i hyn wrth bwysu a mesur.</p> <p>1.3. Pwyllgor Archwilio - Nododd Hywel John, Cadeirydd y Pwyllgor y byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu rhannu cyn bo hir. Nid oedd unrhyw faterion a oedd angen cael eu rhannu gyda'r Bwrdd. Roedd materion a godwyd yn y cyfarfod yn cynnwys lefel y ffioedd a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn arbennig o ran gwaith archwilio cydymffurfiaeth yr Amgueddfa â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (am ddim y flwyddyn ariannol hon, ond codir tâl yn y blynyddoedd nesaf ar swm sydd heb ei phennu eto). Roedd un aelod unigol ar hyn o bryd, ac roedd y Cadeirydd yn ystyried cyfethol aelodau i'r Pwyllgor i ychwanegu at niferoedd yr aelodau Ymddiriedolwyr.</p> <p>1.4. Mentrau AOCC Cyf. - Roedd y Cwmni ar y trywydd cywir i gyflawni ei gyllideb ac elw o £750,000 ar gyfer y flwyddyn. Roedd y Dirprwy Reolwr Mentrau wedi'i phenodi'n Bennaeth Mentrau newydd. Canmolwyd Sylvia Smith am ei gwaith ac am ddyblu elw'r cwmni mewn deuddeg mis, a gweithio'n gadarnhaol gyda'i chydweithwyr i gyflawni'r newid trawsffurfiol hwn. Roedd Liz Jones, cyn-reolwr Project yn Sain Ffagan, yn dirprwyo dros Sylvia yn ystod ei chyfnod mamolaeth. Roedd Bwrdd Mentrau AOCC Cyf. yn edrych ymlaen at dwf cyson a pharhaol.</p>	

10	<p>DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLIADOL</p> <p>1. CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R IAITH GYMRAEG</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, ar ran y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, fod dau ddigwyddiad wedi'u hadrodd, a bod un ohonynt wedi'i ddatrys.</p> <p>2. GDPR</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr amserlenni byr iawn a roddir ar gyfer gwneud diweddariadau diogelwch angenrheidiol i becynnau meddalwedd yn anodd iawn eu cyflawni. Nid oedd y Comisiynydd wedi mynnu unrhyw weithgaredd o ran y toriadau a adroddwyd. Roedd 100% o staff a oedd yn rhan o ymdrin â data wedi'u hyfforddi yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, 82% yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru a 93% yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Roedd adnoddau sylweddol yn cael eu gosod i ymateb i ddau gais am fynediad at ddata. Nododd Ymddiriedolwyr fod yr Adran Datblygu yn wynebu heriau unigryw oherwydd GDPR, a'u bod wedi ymgymryd â'r cyrch cyntaf o ddata a gedwir.</p> <p>3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</p> <p>3.1. <u>Adroddwyd</u>: Roedd yr Amgueddfa yn gwneud cynnydd da wrth ymateb i'r saith nod, ac yn rhannu llwyddiannau a ffyrdd o weithio gyda chyrrff enwebedig eraill. Roedd cyfleoedd am ddysgu creadigol wedi bod yn bosibl drwy raglen bartneriaeth y Comisiynydd a oedd wedi dod â sefydliadau o wahanol sectorau ynghyd. Roedd yr Amgueddfa yn ofalus wrth adrodd ei chyflawniadau yn yr adroddiad hunanwerthuso, gan gredu bod angen cynnydd ar draws sawl maes.</p>	
	<p>UFA</p> <p>Cefnogaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer amgueddfeydd rhanbarthol - Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus wedi cyfarfod â'r Llywydd a Phennaeth y Gymdeithas Amgueddfeydd a'r Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ystyried ffyrdd y gall amgueddfeydd lleol ar draws Cymru gael eu cefnogi'n well. Atgoffwyd y Gweinidog o'r <i>Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015</i>, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i ysgrifennu gan gyn-ddirprwy Lywydd Amgueddfa Cymru Haydn Edwards. Roedd strategaeth newydd yn cael ei datblygu gan y sector amgueddfeydd yng Nghymru, ar gyfer y sector amgueddfeydd.</p> <p>Diolch i'r Ymddiriedolwyr - Diolchodd Carol Bell i'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Llywydd Dros Dro, ac yn arbennig i Laurie Pavelin am gytuno i aros i sicrhau bod gan yr Amgueddfa ddau Swyddog mewn swydd yn ystod y cyfnod recriwtio ar gyfer Llywydd newydd.</p> <p>Ymdeoliad Ymddiriedolwyr Laurie Pavelin a Victoria Provis - Ailadroddodd y Llywydd Gweithredol ei diolch i Laurie a Victoria am eu</p>	

	<p>gwaith a'u hymrwymiad i'r Amgueddfa yn ystod eu cyfnod fel Ymddiriedolwyr, ac yn eu hymrwymadau proffesiynol eraill gyda'r Amgueddfa dros y blynyddoedd. Ategodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol hyn, gan ddiolch hefyd i Carol Bell am ei gwaith a'i chefnogaeth fel Llywydd Dros Dro.</p>	
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf <u>Penderfynwyd:</u> Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 27 Mehefin 2019 yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.</p>	